

Y Diweddaraf am Bolisi'r UE EU 2014.03

Atal a rheoli'r broses o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron - y wybodaeth ddiweddaraf

Diweddarwyd: Rhagfyr 2014

Crynodeb o'r Gyfarwyddeb

Ar 22 Hydref, mabwysiadodd yr Undeb Ewropeaidd y Rheoliad ar atal a rheoli'r broses o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron COM(2013)620.¹ Nod y Gyfarwyddeb yw cydgysylltu ymdrechion yr Aelod-wladwriaethau i fynd i'r afael â'r peryglon sy'n cael eu hachosi gan rywogaethau goresgynnol estron. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn datgan y bydd y pecyn deddfwriaethol yn diogelu bioamrywiaeth frodorol yn ogystal â rheoli'r bygythiadau ehangach a achosir gan rywogaethau goresgynnol estron.

Mae'r Rheoliad yn canolbwyntio ar restr o **50 o rywogaethau goresgynnol estron** sy'n achosi'r pryder mwyaf ledled yr UE. Nid yw'r union rywogaethau ar y rhestr wedi'u cadarnhau eto. Pan ganfyddir y rhywogaethau hyn, byddant yn cael eu rheoli gan ddefnyddio tair strategaeth allweddol:

- **Atal** eu cyflwyno i Aelod-wladwriaethau,
- **Rhoi rhybudd cynnar** ac ymateb yn gyflym pan ganfyddir poblogaethau o rywogaethau goresgynnol estron,
- **Rheoli** poblogaethau o rywogaethau goresgynnol estron, a lleihau'r difrod.

Bydd mesurau ataliol a geir yn y Rheoliad yn gwahardd mewnforio a symud rhywogaethau

¹Yr Undeb Ewropeaidd, **Rheoliad Rhif (EU) 1143/2014 Senedd a Chyngor Ewrop**, 22 Hydref 2014 [fel ar 17 Tachwedd 2014]

goresgynnol estron.

Efallai y darperir caniatadau eithrio ar gyfer gwaith ymchwil a gwaith cadwraeth ex-situ. Mae'r Rheoliad hefyd yn caniatáu i fesurau argyfwng gael eu cymryd os daw rhywogaeth oresgynnol estron yn fater aciwt mewn Aelod-wladwriaeth. Mae'n rhaid rhoi mesurau priodol i reoli symud a mewnforio rhywogaethau goresgynnol estron ar waith o fewn 12 mis i gyflwyno'r Rheoliad.

Bydd systemau rhybudd cynnar yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth lunio ei strategaeth fonitro ei hun a chofnodi data am rywogaethau goresgynnol estron ar lefel yr UE. Mae gan Aelod-wladwriaethau 18 mis ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth i sefydlu system fonitro gynhwysfawr.

Er mwyn rheoli rhywogaethau goresgynnol estron sy'n bodoli eisoes, bydd angen i Aelod-wladwriaethau ddatblygu strategaeth oruchwylio i fonitro poblogaethau presennol ac asesu llwyddiant rhaglenni dileu. Mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau hefyd ddileu poblogaethau newydd sy'n dod i'r amlwg o fewn tri mis i'w canfod. Mae'n rhaid cyflwyno'r mesurau rheoli hyn o fewn 12 mis.

Mae ymgynghoriad ynghylch y rhestr o'r rhywogaethau goresgynnol estron a gaiff eu rheoli gan y Rheoliad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur wedi datblygu fframwaith ar gyfer adnabod rhywogaethau goresgynnol estron allweddol.² Mae'r fframwaith yn cynnwys asesiad risg ar gyfer 80 o rywogaethau goresgynnol estron a allai gyrraedd y rhestr derfynol o 50. Cynhaliwyd asesiad o ddsbarthiad pob rhywogaeth yn yr Aelod-wladwriaethau hefyd.³

Cefndir y ddeddfwriaeth

Ar hyn o bryd, mae dros 12,000 o rywogaethau anffrodorol ledled Ewrop, ac mae 1,500 ohonynt wedi'u diffinio fel rhywogaethau goresgynnol estron. Maent yn tyfu'n gyflym o ran nifer, gan achosi difrod gwerth o leiaf €12.5 biliwn y flwyddyn drwy gostau rheoli/dileu,

²IUCN. Canolfan y DU ar gyfer Ecoleg a Hydroleg y DU, **Framework for the identification of invasive alien species of EU concern**, Hydref 2014 [fel ar 7 Tachwedd 2014]

³ Ibid, tudalen 159

perylon i iechyd dynol, difrod i seilwaith a cholli cynnyrch amaethyddol.⁴

Mae'r canlyniadau eang hyn wedi achosi sawl Aelod-wladwriaeth i gymryd camau annibynnol ar rywogaethau goresgynnol estron. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi datgan, er mwyn rheoli'r mater yn effeithiol, bod angen dull gweithredu unedig ar yr UE, gan nad yw ffiniau daearyddol yn golygu dim i rywogaethau goresgynnol estron.⁵

Pan fo rhywogaethau anfrodorol yn lledaenu, gall gael effaith andwyol drwy ddifetha rhywogaethau brodorol. Gall hyn leihau bioamrywiaeth a gwytnwch yr ecosystem. Pan fo rhywogaethau goresgynnol estron yn cyrraedd, maent yn ymsefydlu drwy drechu rhywogaethau brodorol sy'n dioddef am fod eu cynefin a'u poblogaeth yn dirywio. Felly, mae diogelu yn erbyn y difrod a'r dinistr a achosir pan fo rhywogaethau goresgynnol estron yn lledaenu yn gam hanfodol i sicrhau y gellir cynnal bioamrywiaeth.

Mae targedau'n bodoli eisoes yn yr UE ar gyfer bioamrywiaeth ac mae'r Strategaeth Bioamrywiaeth 2020 gyfredol yn cynnwys nodau allweddol, gan gynnwys rhwystro dirywiad bioamrywiaeth.⁶ Mae'r Strategaeth yn cynnwys mesurau penodol i reoli neu ddileu rhywogaethau goresgynnol allweddol erbyn 2020. Mae'r Strategaeth hefyd yn ceisio atal rhagor o rywogaethau goresgynnol estron rhag lledaenu.

Perthnasedd i Gymru

Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain yn 2005, ac mae'n cyfuno ymdrechion Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Lloegr a Llywodraeth yr Alban i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol. Mae'n darparu data ac asesiadau risg am rywogaethau sy'n berthnasol i ardaloedd daearyddol penodol. Yng Nghymru, mae gan Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Cymru (WINNS) y cylch gwaith canlynol:

⁴ Y Comisiwn Ewropeaidd, **Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd a Chyngor Ewrop ar atal a rheoli'r broses o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron**, 2013/0307 (COD) [fel ar 28 Hydref 2013]

⁵ Ibid.

⁶ Y Comisiwn Ewropeaidd, **EU 2020 Biodiversity Strategy - Towards implementation** [fel ar 7 Tachwedd 2014]

- Darparu fforwm ar gyfer datblygu polisi,
- Cydlynu gwaith ymchwil am rywogaethau goresgynnol estron,
- Codi ymwybyddiaeth am faterion ynghylch rhywogaethau goresgynnol estron,
- Asesu effaith rhywogaethau goresgynnol estron,
- Rhoi cynlluniau monitro ar waith,
- Blaenoriaethu ac atal rhywogaethau goresgynnol estron newydd rhag lledaenu.

Mae nifer y rhywogaethau goresgynnol estron sy'n ymsefydlu yn y DU wedi cynyddu'n raddol ers 1800. Yn ôl adroddiad gan DEFRA yn 2012, mae 280 o rywogaethau goresgynnol estron yn y DU ar hyn o bryd. Canfu'r adroddiad fod 1.4 o rywogaethau goresgynnol estron ychwanegol, ar gyfartaledd, wedi ymsefydlu yn y DU rhwng 2000 a 2010.⁷

Yng Nghymru, mae WINNS wedi canfod bod 111 o rywogaethau goresgynnol estron yn bresennol; mae 11 o'r rhain yn cael eu dileu ar hyn o bryd a 31 ohonynt yn rhywogaethau sefydledig sy'n cael eu rheoli. Mae hefyd 15 o rywogaethau rhybudd uchel y disgwyllir iddynt gyrraedd Cymru yn fuan.⁸

Hefyd, mae DEFRA wedi comisiynu adroddiad gan y Ganolfan Bioamrywiaeth Amaethyddol i asesu effaith economaidd rhywogaethau goresgynnol estron. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod rhywogaethau goresgynnol estron yn costio £125 miliwn y flwyddyn.⁹ Yn ogystal â'r rhain, mae costau anuniongyrchol nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad, fel colli gwytnwch yr ecosystem, ac amcangyfrifir bod y rhain yn costio £7 biliwn y flwyddyn i Gymru.¹⁰

⁷Canolfan Ecolig a Hydroleg Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, **Non Native Species in great Britain: Establishment, detection and reporting to inform effective decision making** [fel ar 17 Tachwedd 2014]

⁸Llywodraeth Cymru, **Papur ar gyfer y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Atodiad A** 13 Mehefin 2013 [fel ar 17 Tachwedd 2013].

⁹Adroddiad gan CABI a gomisiynwyd gan DEFRA, **The Economic cost of Invasive Non-Native Species on Great Britain**, 2010 [fel ar 17 Tachwedd 2014]

¹⁰ Ibid.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Adfer Natur.¹¹ Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 3 Rhagfyr 2014. Mae'r Cynllun Adfer Natur yn ceisio datblygu strategaeth ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau yng Nghymru. Mae'r Cynllun Adfer Natur yn nodi rheoli rhywogaethau goresgynnol estron fel ffordd allweddol o wella gwytnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau.

Safbwynt Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi'r confensiwn rhyngwladol ar fioamrywiaeth, sy'n cynnwys targedau sy'n gyson â thargedau'r UE i rwystro dirywiad bioamrywiaeth erbyn 2020.¹² Rhoddodd Llywodraeth y DU sylwadau ynghylch Rheoliad yr UE cyn iddo gael ei basio.¹³ Yn ei sylwadau, roedd yn cefnogi nodau deddfwriaeth yr UE ond am gael rhagor o eglurder mewn sawl maes, gan gynnwys:

- y rhestr o 50 o rywogaethau, sut y cânt eu dewis a ph'un a yw 50 yn nifer briodol
- rhywogaethau estron sy'n frodorol i Aelod-wladwriaethau eraill yn Ewrop.

Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi blaenoriaeth i rywogaethau goresgynnol estron yn y Bil Seilwaith hefyd¹⁴.

Mae'r Bil hwn yn darparu mesurau ar sail Cymru a Lloegr i sicrhau y gellir rheoli rhywogaethau goresgynnol estron yn effeithiol a bod gweithdrefnau clir ar gael i'w dileu.¹⁵

¹¹Llywodraeth Cymru, **Ymgynghoriad ar y Cynllun Adfer Natur i Gymru**, 10 Medi 2014 [fel ar 17 Tachwedd 2014]

¹²**Y Confensiwn Rhyngwladol ar Fioamrywiaeth; Targedau Aichi** 29 Hydref 2010 [fel ar 17 Tachwedd 2014]

¹³Tŷ'r Cyffredin, **Adroddiad y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd; sesiwn 17**, 24 Hydref 2013, 2014 [fel ar 17 Tachwedd 2014]

¹⁴Llywodraeth y DU, **y Bil Seilwaith**, 5 Mehefin 2014 [fel ar 15 Tachwedd 2014]

¹⁵Llywodraeth Cymru, **y Bil Seilwaith; Cynnydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** [fel ar 14 Tachwedd 2014]

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cefnogi safbwynt y DU ar Rheoliadau'r UE. Gan fod y Rheoliad bellach yn gyfraith Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am roi'r Rheoliad ar waith yma.¹⁶

Gweithredu ledled yr Aelod-wladwriaethau

Mae'n rhwymedigaeth ar bob Aelod-wladwriaeth llynu wrth derfynau amser y Rheoliad a gweithredu'r mesurau perthnasol o fewn 12 mis. Caiff y ddeddfwriaeth Ewropeaidd ei hadolygu yn 2020 a'r terfyn amser a bennwyd ar gyfer cyhoeddi'r adolygiad yw mis Mehefin 2021.¹⁷

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y polisi Ewropeaidd ar rywogaethau goresgynnol estron, cysylltwch â **Nia Seaton**, Nia.Seaton@cynulliad.cymru neu **Gregg Jones**, Gregg.Jones@cynulliad.cymru.

Gweler hefyd:

Y blogbost am y Cynllun Adfer Natur

Diweddariad polisi'r UE: Atal a rheoli'r broses o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron - Ebrill 2014

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

¹⁶Llywodraeth Cymru, **Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Ymchwiliad i Rywogaethau Goresgynnol Estron**, 11 Chwefror 2014 [fel ar 17 Tachwedd 2014]

¹⁷Y Comisiwn Ewropeaidd, **Cynnig ar gyfer Rheoliad gan Senedd a Chyngor Ewrop ar atal a rheoli'r broses o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron**, 2013/O307 (COD) [fel ar 28 Hydref 2013]